**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Claire Pillman
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

Anfonwyd copi at Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y Senedd

16 Medi 2024

Annwyl Claire,

P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

Heddiw, fe drafododd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb uchod gan Gareth Jones, sydd wedi bod yn casglu llofnodion ar ein gwefan. O'r 13,245 llofnod ar y ddeiseb, mae 8,270 yn dod o Gymru. Roedd y deisebwyr am iddi gael ei thrafod heddiw am eu bod yn credu y bydd tîm Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud penderfyniad terfynol i gau pob canolfan ymwelwyr oddeutu 20 Medi.

*Geiriad y ddeiseb*

Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

*Mae cau'r canolfannau hyn yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.*

*Byddai cau'r canolfannau ymwelwyr hyn yn cael effaith negyddol pellgyrhaeddol ar yr economi leol, yr amgylchedd, a llesiant cymunedol.*


Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael gohebiaeth a lofnodwyd ar y cyd gan Cycling UK, Beicio Cymru, UK MTB Trail Alliance, Beicio Mynydd Cymru a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru, ynghyd â dros 90 o grwpiau, sefydliadau a busnesau eraill sy'n codi pryderon ynghylch effaith y cau arfaethedig hwn.

Yn ogystal â’r ddeiseb hon, gwnaeth y Pwyllgor hefyd drafod eich ymateb dyddiedig 14 Awst i ddeiseb gysylltiedig, P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau’r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas, a gyflwynwyd gan Kim Williams. Ysgrifennodd y Pwyllgor atoch yn flaenorol i ofyn am eglurhad o’r penderfyniad i gau canolfan ymwelwyr Ynyslas, ac mae hefyd wedi sicrhau bod gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wybodaeth am y mater hwn.

O ystyried natur frys y sefyllfa, mae’r Pwyllgor yn ysgrifennu i rannu pryderon y deisebwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb cyn i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud ei benderfyniad. Bydd y Pwyllgor yn gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y ddeiseb hon, ni waeth beth yw penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am ganlyniad trafodaethau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn, drwy anfon e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir,



Gareth Price

Clerc i’r Pwyllgor Deisebau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.